

# FFISEG

Ar ôl graddio mewn Ffiseg, fel arfer byddwch yn gallu:

- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfreithiau ac egwyddorion ffisegol sylfaenol a chymhwyso'r egwyddorion hyn i feysydd amrywiol ffiseg.
- Datrys problemau mewn ffiseg drwy nodi'r egwyddorion priodol, gan ddefnyddio technegau gwyddonol megis achosion arbennig a chyfyngol ac amcangyfrifon trefn-maint.
- Datrys problemau drwy wneud rhagdybiaethau a bras amcanion yn eglur.
- Cynllunio, cynnal, dadansoddi ac adrodd am ganlyniadau arbrawf neu ymchwiliad.
- Dadansoddi data a gwerthuso'r lefel ansicrwydd mewn canlyniadau.
- Defnyddio mathemateg i ddisgrifio'r byd ffisegol.
- Deall modelu mathemategol a swyddogaeth bras amcanion.
- Cyfathrebu'n dda, gwrando'n ofalus, darllen testunau anodd, a chyflwyno gwybodaeth gymhleth yn eglur a chryno.
- Rhoi sylw i fanylder a thrin syniadau manwl gywir a chymhleth, adeiladu dadleuon rhesymegol a defnyddio iaith dechnegol yn gywir.
- Datblygu sgiliau cyfrifiadur a TG mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys defnyddio ieithoedd a phhecynnau rhaglennu priodol.
- Gweithio'n annibynnol, mentro, cynllunio a threfnu i fodloni terfynau amser, a rhyngweithio'n adeiladol â phobl eraill.
- Trafod yn rhifol a chyflwyno a dehongli gwybodaeth yn raffigol.
- Defnyddio offer a thechnegau labordy yn effeithiol.
- Dadansoddi canlyniadau arbrawf neu ymchwiliad yn feirniadol a dod i gasgliadau dilys.
- Gwerthuso lefel yr ansicrwydd mewn canlyniadau arbrawf a chymharu'r canlyniadau hyn gyda chanlyniadau disgwylidig, a gwerthuso pwysigrwydd y canlyniadau.

## Cipolwg ar Ffiseg

Mae ffiseg yn ymwneud ag arsylwi, deall a rhagweld digwyddiadau naturiol ac ymddygiad systemau o waith dyn. Mae'n delio â chwestiynau dwfn ynghylch y bydysawd a materion ymarferol, amgylcheddol a thechnolegol pwysig. Mae'n cwmpasu mathemateg a damcaniaeth, arbrofion ac arsylwadau, cyfrifiadura, technoleg, deunyddiau a damcaniaeth gwybodaeth. Mae syniadau a thechnegau ffiseg yn sbarduno datblygiadau mewn cemeg, cyfrifiadura, peirianeg, gwyddor deunyddiau, mathemateg, meddygaeth a gwyddorau bywyd, meteoroleg ac ystadegau. Mae ffiseg yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Mae'r elfennau sylfaenol, y mae pob myfyriwr israddedig yn eu cwmpasu i ryw raddau, yn cynnwys electromagneteg, mecaneg glasurol a chwantwm, ffiseg ystadegol a thermodynameg, ffenomenau tonnau a phriodweddau sylwedd. Mae graddedigion ffiseg wedi astudio sut i gymhwyso egwyddorion sylfaenol i feysydd penodol a allai gynnwys ffiseg atomig, ffiseg niwclear a gronynnau, ffiseg mater cyddwysedig, deunyddiau, plasma a hylif. Mae graddedigion ffiseg yn rhifog, trefnus ac yn cael eu cyflogi mewn amrywiaeth eang o swyddi.

Sources:

